# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 6
04/05/20

# Y Bugail

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy & Rachel Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams,
Rachel Hughes & Greg Leavers

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Salm 23

**Fersiwn Beibl.net**

Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i; mae gen i bopeth dw i angen.
Mae'n mynd â fi i orwedd mewn porfa hyfryd;
ac yn fy arwain at ddŵr glân sy'n llifo'n dawel.
Mae'n rhoi bywyd newydd i mi, ac yn dangos i mi'r ffordd iawn i fynd.
Ydy, mae e'n enwog am ei ofal.
Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynllyd, fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.
Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i.
Rwyt ti'n paratoi gwledd i mi ac mae fy ngelynion yn gorfod gwylio.
Rwyt ti'n tywallt olew ar fy mhen. Mae gen i fwy na digon!
Bydd dy ddaioni a dy ofal ffyddlon gyda mi weddill fy mywyd.
A byddaf yn byw eto yn nhŷ'r ARGLWYDD am byth.

*Salm 23 Beibl.net*



**Fersiwn syml**

Ysgrifennodd y Brenin Dafydd gân yn dweud bod Duw fel bugail sydd yn edrych ar ôl ei ddefaid. Mae'n eu harwain nhw i gaeau da a dŵr glân. Mae'n dangos y ffordd fel bod dim ofn arnyn nhw, hyd yn oed yn y llefydd peryglus.



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**


"Gwnewch yn siŵr eich bod chi ddim yn edrych i lawr ar un o'r rhai bach yma. Wir i chi, mae'r angylion sy'n eu gwarchod nhw yn gallu mynd i bresenoldeb fy Nhad yn y nefoedd unrhyw bryd.'

"Beth ydych chi'n feddwl? Meddyliwch am ddyn a chant o ddefaid ganddo, a bod un ohonyn nhw'n crwydro i ffwrdd. Oni fyddai'n gadael y naw deg naw ar y bryniau ac yn mynd i chwilio am yr un sydd ar goll? Credwch chi fi, os daw o hyd iddi, mae'r un ddafad yna yn rhoi mwy o lawenydd iddo na'r naw deg naw wnaeth ddim mynd ar goll! Yr un fath, dydy'ch Tad yn y nefoedd ddim am i unrhyw un o'r rhai bach yma gael eu colli.

*Mathew 18:10-14 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Siaradodd Iesu am ddefaid, hefyd. Dwedodd o, "Meddyliwch am rywun gyda chant o ddefaid ac un yn mynd ar goll. Byddai'n gadael y lleill i gyd i fynd i chwilio amdani. Dyna beth mae Duw yn ei wneud. Dydy o ddim eisiau i'w blant fynd ar goll."



# Lliwio




Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i;
mae gen i bopeth dw i angen.

Salm 23 adnod 1

# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori efo'n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Sut mae'n teimlo i fod ar goll?
2. Sut mae'n teimlo pan mae rhywun yn dod o hyd i ti?
3. Sut beth ydy chwilio am rywbeth?
4. Pam ydyn ni'n chwilio am bethau pan fyddwn wedi'u colli?
5. Am bwy neu am beth fuaset ti'n chwilio os y buasen nhw ar goll?

Mae Duw yn ein caru gyda chariad anferthol ac mae'n benderfynol o ddangos i ni gymaint mae'n ein caru, fel y bugail yn yr hanes.

# Chwilair


## Yr Arglwydd yw fy mugail

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | R | G | L | W | Y | DD | A | DD | T |
| D | M | A | R | W | D | FF | F | R | Y |
| A | W | DD | L | O | Y | Y | N | O | W |
| I | E | E | I | T | R | DD | Y | FF | Y |
| O | L | L | A | FF | F | L | R | P | LL |
| N | O | W | G | T | Y | O | CH | O | I |
| I | E | G | U | G | H | N | Y | R | DD |
| L | Y | D | B | Y | W | Y | D | F | E |
| D | DD | Y | N | O | G | I | D | A | W |
| U | W | N | O | I | N | Y | L | E | G |

AMDDIFFYN
ARGLWYDD
BUGAIL
BYWYD
DAIONI
DIGON
DYCHRYN
DŴR
FFORDD
FFYDDLON
GELYNION
GWEDDILL
GWLEDD
HYFRYD
OLEW
PORFA
TAWEL
TYWYLL

# Posau

**Helpa'r bugail i ddod o hyd i'w ddafad goll.**



© Crafting The Word Of God

# Posau

**Faint o ddefaid fedru di dod o hyd iddyn nhw?**




# Sialens

**Mae'r dudalen sialens yr wythnos hon yn cynnwys 2 boster. Ar ôl eu creu nhw, beth am eu rhoi nhw yn y ffenest er mwyn i bobl eraill fedru eu mwynhau?**



Ar dudalen 2 o'r pecyn hwn mae Salm 23 sy'n sôn am sut mae Duw yn gofalu amdanom ac yn darparu ar ein cyfer.

Beth am gopïo geiriau'r Salm a gwneud poster gyda lluniau o amgylch y geiriau?









Gwna boster 'dafad ar goll'.

Dyma Dilys y ddafad.
Mae'n crwydro o hyd ac o hyd ac yn hoffi cuddio! Mae wedi cuddio ar bob tudalen yn y pecyn hwn. Sawl gwaith fedru di ddod o hyd iddi.




Beth am ddefnyddio Lego i wneud model o'r stori?





Mae'r stori'r wythnos hon yn cael ei chynnwys mewn llyfr arbennig gyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau'r Gair o'r enw 'Storiau'r Meistr.'

Beth am archebu copi heddiw i fwynhau efo'ch teulu?
http://www.gwales.com/bibliographic/?lang=CY&tsid=6
Mae fersiwn i'w liwio ar gael hefyd:
http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781859945575/?lang=CY&tsid=7



# Crefft

## Defaid Gwlanog



**Byddi angen:**
gwlân cotwm, pot iogwrt gwag,
glud PVA, brwsh peintio,
cerdyn gwyn, pinnau ffelt,
pensil, siswrn







1. Tro'r pot iogwrt wyneb i waered a'i orchuddio â glud PVA.




2. Gorchuddia'r pot iogwrt â pheli bychain o wlân cotwm.



3. Tynna lun o ben dafad – cofia'r llygaid a'r trwyn! Torra'r llun allan.



4. Gluda'r pen i'r corff gwlanog.

# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti mai Ti ydy'r bugail da.
Ti ydy'r bugail gorau un.
Rwyt Ti'n gwybod am bopeth rydw i ei angen.
Diolch i Ti am gartref braf.
Diolch am wely clyd.
Diolch i Ti am ddigon o fwyd i'w fwyta bob dydd a dŵr glân i'w yfed.
Diolch i Ti am dy ofal.
Diolch i Ti dy fod hefo fi hyd yn oed pan mae pethau'n anodd, neu pan mae gen i ofn.
Diolch i Ti dy fod yn addo bod hefo fi bob amser.
Plîs helpa fi i dy drystio Di.

Amen.



# Crefft

## Defaid Pom Pom



**Byddi angen:**
gwlân, cwpan, cerdyn du, bocs grawnfwyd neu iogwrt, llygaid gwgli,
(Os nad oes gen ti'r llygaid gwgli gwna lun o'r llygaid ar gerdyn gwyn)
pensil, siswrn, glud PVA, brwsh paent.





1. Tro'r gwpan ar ei phen i waered ar y bocs sydd wedi'i agor allan. Gwna amlinelliad o'r gwpan.



2. Tynna lun o gylch bychan tu mewn i'r cylch mawr fel bod gen ti lun sy'n debyg i ddonyt ac yna gwna linellau i wneud y siâp C.



3. Torra allan y siâp C.



4. Gosoda'r siâp C ar gerdyn a gwna amlinelliad ohono. Torra fo allan fel bod gen ti 2 siâp C.



5. Torra ddarn o wlân tua 30cm o hyd.



6. Gosoda'r gwlân ar un siâp C.



7. Rho'r siâp C arall drosto.



8. Cychwynna lapio'r gwlân o amgylch y cardiau siâp C. Gwna'n siwr nad ydy'r tamaid o wlân rhwng y ddwy C yn syrthio allan.



9. Parha i lapio'r gwlân o gwmpas y siâp C nes y bydd yn drwchus. Torra'r gwlân.

**Dyma'r darn anodd - fyddi di angen oedolyn i dy helpu nawr!**





10. Dalia'n dynn yn y ddau ben o'r gwlân sy'n dod allan o'r cerdyn siâp C. Gyda siswrn rhwng y ddwy C torra drwy'r gwlân o gwmpas y siâp i gyd.



11. Wedi i ti orffen torri'r gwlân bydd yn edrych fel y llun uchod.



12. Tynna'r ddau damaid o wlân at ei gilydd a'u clymu'n dynn at ei gilydd. Gwna gwlwm.



13. Yn ofalus tynna allan y ddau ddarn cerdyn siâp C.



14. Torra i ffwrdd y ddau damaid o wlân.



15. Ar y cerdyn du gwna lun o ben dafad. Paid ag anghofio'r clustiau! Torra allan y llun.



16. Gluda'r llygaid gwgli i wyneb y ddafad a gludo'i phen i'r pom pom.








# Crefft



## Defaid Salm 23

**Byddi angen:**

gwlân ( gwyn, llwyd neu hufen), Salm 23, cylch i hongian llenni, cerdyn du,llygaid gwgli, pensil, siswrn, glud PVA, brwsh peintio.





1. Gosoda’r cylch dal lleni ar Salm 23 a gwna amlinelliad o’r tu allan i’r cylch. Torra allan y salm.



2. Torra wlân tua hyd braich oedolyn 5 o weithiau neu 3metr.



3. Clyma un pen i’r gwlân i’r cylch.



4. Yn ofalus lapia’r gwlân o gwmpas y cylch a phaid â gadael bylchau.



5. Gorchuddia pob tamaid o’r cylch gyda’r gwlân a gwneud cwlwm ar y top. Torra i ffwrdd y gwlân sydd dros ben.



6. Rho linell o lud PVA un ochr i’r cylch.



7. Gluda Salm 23 i’r gwlân gludiog (gwna’n siŵr nad yw’r geiriau wyneb i waered)



8. Tynna lun o ben y ddafad - paid ag anghofio’r clustiau. Torra’r llun allan.



9. Rho lud ar gefn y llygaid gwgli a’u gludo ar wyneb y ddafad.



10. Rho ychydig bach o lud PVA ar dop y cylch dal llenni a gluda pen y ddafad arno.



11. Torra ddarn o wlân a’i roi drwy’r bachyn ar dop y cylch a gwna gwlwm.



Beth am i ti wneud rhagor o ddefaid Salm 23? Maen nhw’n gwneud anrhegion hyfryd.

**Salm 23** - Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i; mae gen i bopeth dw i angen. 2 Mae'n mynd â fi i orwedd mewn porfa hyfryd; ac yn fy arwain at ddŵr glân sy'n llifo'n dawel. 3 Mae'n rhoi bywyd newydd i mi, ac yn dangos i mi'r ffordd iawn i fynd. Ydy, mae e'n enwog am ei ofal.4 Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynllyd, fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi. Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i. 5 Rwyt ti'n paratoi gwledd i mi ac mae fy ngelynion yn gorfod gwylio. Rwyt ti'n tywallt olew ar fy mhen. Mae gen i fwy na digon! 6 Bydd dy ddaioni a dy ofal ffyddlon gyda mi weddill fy mywyd. A byddaf yn byw eto yn nhŷ'r ARGLWYDD am byth.

Rysáit



# Myffins defaid

**Cynhwysion:**
200g o flawd codi
100g o siwgwr mân
1 ŵy mawr
3 owns hylifol (fluid ounces) o olew blodau haul
5 owns hylifol o lefrith
½ llwyad o rinflas fanila
Jam neu geuled (curd) lemon
600g o siwgwr eisin
300g o fenyn
Marshmallows bach
Botymau siocled
i addurno'r myffins



## Gwneud myffins



- Cynheswch y popty i wres o 190 gradd Canradd/ neu 375 gradd Fahrenheit. Leiniwch 6 chwpan fawr i ddal myffins â phapur leinio a rhowch nhw i un ochr o'r neilltu.
- Rhidyllwch y blawd i mewn i'r bowlen ac ychwanegwch y siwgwr a'i chwisgio.
- Curwch yr ŵy, yr olew blodau haul, y llefrith a'r rhinflas fanila â'i gilydd mewn cwpan. Arllwyswch y gymysgedd i mewn i'r cynhwysion sych. Cymysgwch y cyfan yn ofalus â fforc nes mae'r cyfan wedi dod at ei gilydd.
- Rhowch llond llwy bwdin o'r cytew ymhob un o'r cwpanau myffin.
- Rhowch llond llwy de o jam neu geulad lemon ynghanol pob cymysgedd myffin.
- Pobwch am 15 i 20 munud nes bod y myffins wedi codi, yn gadarn ac yn euraidd.
- Tynnwch y myffins o'r popty a gadewch iddyn nhw oeri.



## Addurno

- Curwch y siwgr eisin wedi'i hidlo ynghyd â'r menyn - ychwanegwch ychydig o ddŵr berwedig i'w lacio os oes angen. Curwch nes ei fod yn llyfn yna'i daenu ar y myffins i'w gorchuddio'n llwyr.
- Gosodwch y marshmallows bach dros y myffin.
- Defnyddiwch fotwm siocled fel pen y ddafad. Glynwch ef I'r marshmallow â samaid bach o'r eisin menyn.
- Torrwch fotwm siocled arall yn ei hanner a'i glynu un bob ochr i'r pen i'w wneud clustiau.
- Defnyddiwch bren bach 'cocktail' i ychwanegu dwy belen o eisin i wneud llygaid.



**A dyna ni! Mae'n hawdd gwneud diadell o ddefaid blasus!**



Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
Fe ydy'r un a'n gwnaeth ni,
a ni ydy ei bobl e - y defaid mae'n gofalu amdanyn nhw.

*Salm 100 adnod 3*

# Gweddi Greadigol


## Y gorlan

Crea ardal gyda defnyddiau gwahanol .
- Gwyrdd - porfeydd breision
- Glas - dyfroedd tawel
- Du – dyffryn tywyll, du

Crea ffon fach.

Crea gorlan gyda brigau, ffyn lolipop neu gerrig bychan.







Ysgrifenna dy enw ar y ddafad golledig, rho'r ddafad yn y gorlan a dyweda weddi fach yn gofyn i Dduw edrych ar dy ôl di.



Gofynna i Dduw edrych ar ôl dy ffrindiau a dy deulu a'u cadw'n nhw'n ddiogel yn ei gorlan ef.

## Lle saff

Wyt ti yn hoffi gwneud ffau (‘den’) i chwarae ynddi?

Yn y Salm, mae’n sôn am y bugail (Duw) yn ein harwain ni i le hyfryd, tawel.

Beth am wneud ffau i i ti fod yn dawel. Gelli ddefnyddio blanced a chlustogau. Neu efallai y gallet ti wneud ffau yn yr ardd.

Buasai dy ffau yn le da i ti siarad hefo Duw am bethau – gweddïo.




# Gemau



## Gêm dysgu adnod

**Bydd angen:**
Copi o'r adnod ar y jigsô
Siswrn

**Sut i chwarae:**
Torra'r darnau jigsô allan yn ofalus.
Cymysga'r darnau.
Rho'r darnau yn ôl wrth ei gilydd i greu yr adnod yn gyfan eto.
Tynna ddarn allan a cheisia ddweud yr adnod.
Tynna ddarn arall allan a cheisia ddweud yr adnod.
Gwna hyn nes dy fod yn dweud yr adnod heb un darn o'r jigsô.




## Dafad dan gwpan



**Byddi angen:**
- 3 cwpan yr un fath â'i gilydd
- Dafad – pelen o wlân cotwm neu bom-pom
- 2 chwaraewr

**Sut i chwarae:**
- Gosoda'r 3 cwpan mewn rhes.
- Cuddia'r ddafad o dan un o'r cwpanau.
- Symud y cwpanau o gwmpas.
- Gofyn i'r chwaraewr arall ddyfalu o dan pa gwpan mae'r ddafad.
- Os mae'n dyfalu'n gywir, newidiwch drosodd a rhoi cynnig i'r chwaraewr arall guddio'r ddafad.





# Gemau



## Y defaid i'r gorlan:


"Fi ydy'r bugail da. Dw i'n nabod fy nefaid fy hun ac maen nhw'n fy nabod i."
*Ioan 10:14*


**Bydd angen:**

- 10 o beli gwlân cotwm neu 'marshmallows' (defaid)
- Gwelltyn i bob chwaraewr
- Llun y gorlan wedi'i thorri allan
- Amserydd – oriawr neu ffôn

**Sut i chwarae:**

- Plyga'r gorlan i wneud siâp sgwâr gydag agoriad bach.
- Gosod y peli gwlân cotwm neu'r 'marshmallows' y tu allan i'r gorlan.
- Mae pob chwaraewr yn cael munud i geisio chwythu'r peli gwlân cotwm (neu'r 'marshmallows') i mewn i'r gorlan.
- Mae hyn yn reit anodd gan fod y gorlan yn gallu symud wrth chwythu'r 'defaid' – ond mae'n hwyl!
- Os ydy o'n rhy anodd, tapia'r gorlan i'r bwrdd neu'r llawr fel nad ydy'n symud.
- Yr enillydd fydd y chwaraewr sy'n llwyddo i gael y 10 'dafad' i mewn i'r gorlan yn yr amser byrraf.





## Chwarae cuddio




**Byddi angen:** 2 neu fwy o chwaraewyr


**Sut i chwarae:**
Mae un chwaraewr yn chwilio ac mae'r chwaraewyr eraill yn cuddio.
Mae'r chwaraewyr sy'n cuddio yn brefu fel dafad ambell waith i roi cliw i'r un sy'n chwilio.

# Gemau

## Parau



- Torrwch allan y cardiau isod a'u cymysgu.
- Rhowch y cardiau wyneb i lawr ar y bwrdd.
- Mae angen i'r chwaraewyr droi dau gerdyn ar y tro. Nod y gêm ydy ceisio dod o hyd i bâr.
- Os ydy chwaraewr yn dod o hyd i bâr yna mae'n ei gadw.
- Os nad ydy o'n cael pâr mae'n rhoi'r cardiau yn ôl wyneb i lawr.
- Yr enillydd ydy'r person sydd â'r mwyaf o gardiau ar y diwedd.
- Os oes gan y chwaraewyr yr un nifer o barau, yr un sydd â'r bugeiliaid sy'n ennill.






# Gemau



## Cuddiwch y defaid!

Torra'r lluniau defaid isod. Mae’r chwaraewyr yn cymryd eu tro i guddio'r holl ddefaid o amgylch y tŷ gan gymryd dim mwy na 5 munud i'w cuddio cyn i weddill y chwaraewyr fynd i chwilio amdanyn nhw. Yr enillydd yw'r chwaraewr sy'n dod o hyd i'r nifer fwyaf o ddefaid.



# Gemau

## Bingo defaid




**Byddwch angen:**

1.Y lluniau o'r 12 dafad wedi'u torri allan yn unigol a bag neu gap i'w rhoi nhw ynddo.
2.Cardiau'r pedwar chwaraewr sydd isod – wedi'u torri allan.
3.Darnau o bapur neu gerrig bach i orchuddio'r sgwariau â lluniau defaid arnynt- 12 ar gyfer pob chwaraewr.


**Sut i Chwarae**

1.Rhowch luniau'r defaid yn y cap neu'r bag.
2.Mae un o'r chwaraewyr yn cael ei ddewis yn alwr, yn un sy'n galw.
3.Mae'r galwr yn tynnu llun dafad allan o'r cap neu'r bag ac yn ei ddangos i bob chwaraewr.
4.Pwy bynnag sydd â'r llun hwn ar ei gerdyn, yna mae'n ei guddio â charreg fach neu sgwâr o bapur.
5.Yr enillydd yw'r cyntaf i guddio pob llun ar ei gerdyn.




Wyddet ti er mai adrodd stori am ddafad mae Iesu, siarad amdanon ni mae o mewn gwirionedd? Yn union fel mae'r bugail yn chwilio am y ddafad sydd wedi crwydro, mae Iesu'n chwilio amdanon ni ac eisiau i ni ddod yn ôl ato.


Chwaraewr 1




Chwaraewr 2



Chwaraewr 3




Chwaraewr 4



# Canu

Un, dwy, tair dafad fach yn y gorlan;
wyth, naw, deg sy'n cael eu cyfri yn y pant;
nawdeg saith, nawdeg wyth,
**NAWDEG NAW! O NA!**
Mae'r bugail wedi colli rhif cant!



Felly fwrdd â fo i chwilio am y ddafad,
chwilio dros y bryniau yn agos ac yn bell.
Mae'n darganfod yr oen ac yn dod â fo yn ôl
ac yn dathlu gan fod popeth yn well.



Dyma stori Iesu am braidd o ddefaid twp
a bugail oedd jyst fel Efe.
Fo 'di'r Bugail da sydd yn chwilio am bob un
ohonom ni sy'n mynd o'i le.

Hawlfraint 2012 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/ycVzjCkNaBc
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Dolenni



Sgetsh bypedau 'Bugail a dafad' https://youtu.be/MuFdDqKywF8

Sgetsh bypedau y stori https://youtu.be/A7ybyIrl_Q4

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/ycVzjCkNaBc

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch 'Subscribe')

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

Cartŵn o'r stori http://beibl.net/stori-am-ddafad-aeth-ar-goll